

Enw: William Nott
Dyddiad geni: 1782
Dyddiad marw: 1845
Rhiant: Charles Nott
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Samuel Henry Fergus Johnston

Ganwyd 20 Ionawr 1782 gerllaw Castell Nedd, mab Charles Nott, Shobdan, sir Henffordd. Cafodd ei addysg yng Nghastell Nedd ac yn ysgol ramadeg y Bont-faen hyd 1794, pryd y daeth ei dad yn dafarnwr gwesty'r 'Ivy Bush' yn nhref Caerfyrddin. Yn 1798 ymunodd â chorff o wirfoddolwyr yng Nghaerfyrddin a chan iddo ddyfod i hoffi'r bywyd milwrol ymadawodd (1800) am yr India lle y cafodd gomisiwn swyddog yn y 'Bengal European Regiment.' Bu'n gwasnaethu yn yr India - ar wahân i egwyl fer yn 1822 a dreuliodd yng Nghaerfyrddin - hyd nes iddo ymneilltuo oblegid afiechyd yn 1844. Digwyddodd yr hyn yr enillodd fwyaf o enw iddo'i hun o'i blegid yn y rhyfel Afghan cyntaf, pryd yr arweiniodd lu o w r o Kandahar, gan orchfygu'r Afghaniaid yn Chuznee yn 1842 ac ymwithio ymlaen wedi hynny i Kabul. Treuliodd y cyfnod ar ôl ei ymneilltuedd yng Nghaerfyrddin, lle y bu farw ar 1 Ionawr 1845. Claddwyd ef yn eglwys S. Pedr. Y mae cofgolofn iddo ar y sgwâr yng Nghaerfyrddin a elwir yn awr yn Nott Square.

Awdur

Yr Athro Samuel Henry Fergus Johnston, (1908 - 1991)

Ffynonellau

J. H. Stocqueler, *Memoir and Correspondence of Major-General Sir William Nott, G.C.B.* (Llundain 1854), 1854
Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [296465178](#)

Wikidata: [Q2580155](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

